COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored
12.30 y.p., Dydd Iau 11 Mawrth 2021
Cynhaliwyd mewn nifer o leoliadau, trwy gyfrwng meddalwedd MS Teams

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 - 14.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Presennol: John Graystone (yn Cadeirio), Toni Schiavone (Is-gadeirydd), Caroline Davies, Tim Palazon, Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Cathy Clark, Gareth Cork, Salamatu Fada, Jenni Jones-Annetts, Daryl Leeworthy, Jan Tiley, Stephen Nicholls, Judith Evans, Marion Burke, Steve David, Chris Franks; Suzanne Samuel (ac eithrio cofnodion 5 & 6); a Dona Lewis (hyd at gofnod 5 yn unig). Roedd cworwm trwy gydol y cyfarfod.
Hefyd yn Bresennol: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc); Siôn Aled Owen (cyfieithydd – gwasanaeth cyfieithu olynnol).
Hefyd: Adele Gatt (Rheolwr Cyllid a'r Gyflogres) ac Adrian Heathfield (Rheolwr Systemau Gwybodaeth Rheoli a Thechnoleg) – cofnodion 1 a 2 yn unig.
Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2. Profiadau diweddar aelodau penodol o staff

Disgrifiodd Adele Gatt y newidiadau oedd wedi bod yn ofynnol dros y flwyddyn flaenorol yn ei Thîm Cyllid, i sicrhau parhad y swyddogaeth cyflogres ymhlith pethau eraill. Gweithiodd Adele i CAG De Cymru a'r cyrff a'i olynodd ers dros 30 mlynedd (cymhwysodd fel cyfrifydd yn ystod y cyfnod hwnnw), a hon oedd y flwyddyn fwyaf heriol o weithgaredd gwaith yn ei phrofiad hi, ac yn fwy heriol na blynyddoedd yr uno. Roedd yr angen i leoli offer yng nghartrefi cydweithwyr, gweithio ar brydiau yn ystod y gwyliau ac anghenion cydweithwyr i barhau i addysgu gartref oll wedi creu problemau. Roedd hyblygrwydd wedi bod yn allweddol, ac yn sgil hynny, roedd lefelau'r sicrwydd yn ddigon uchel i ateb gofynion manwl yr archwilwyr mewnol ac allanol.

Fe wnaeth Adrian Heathfield, oedd wedi treulio dros 25 mlynedd yn ei swydd, hefyd ddweud na ellid cymharu anawsterau'r flwyddyn ddiwethaf ag unrhyw beth yn ystod cyfnodau blaenorol. Roedd yn rheoli 5 cydweithiwr technegol yn eu swyddi. Roedd datblygiad platfformau a dulliau cofrestru ar-lein, addysgu trwy gyfrwng fideo ac ati wedi gorfod cael eu datblygu ar garlam; yr angen i alluogi dysgwyr i barhau i gyfranogi trwy gyfrwng y switsh hwnnw oedd yr agwedd fwyaf heriol o'r broses gyfan. Roedd y bore hwnnw wedi bod yn enghraifft o hynny, yn sgil treulio 2 awr yn egluro wrth ddysgwr sut i wneud defnydd llawn o nodweddion teclyn digidol yr oedd y Sefydliad wedi'i fenthyca iddo (un o blith dros 200). Roedd cyllid Llywodraeth Cymru wedi bod yn ddefnyddiol er mwyn buddsoddi mewn dyfeisiau ychwanegol o'r fath, ac roedd rhywfaint o'r grant diweddaraf wedi cael ei ddefnyddio i brynu trwydded Addysg Zoom - opsiwn wedi'i amgryptio'n llawn (yn wahanol i'r hyn oedd ar gael flwyddyn yn ôl) oedd yn ateb gofynion diogelu. Canmolodd Adrian ei dîm, a chadarnhaodd Chris Franks ei fod wedi cael cymorth cyson ganddynt

yn ystod cyfnodau'r clo i sicrhau ei fod yn gallu cyfranogi mor llawn ag y bo modd fel llywodraethwr, ar waethaf ei alluoedd technegol cyfyngedig.

Er budd y sawl oedd ddim yn gwybod, cyfeiriwyd at y ffaith fod Adele ac Adrian yn chwaer a brawd. Roedd eu cyfraniadau a'r agwedd gadarnhaol oedd wedi bod yn amlwg ymhlith staff yn gyffredinol dros y flwyddyn flaenorol wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr; a nodwyd eu cynnydd proffesiynol trwy amrywiaeth o swyddi, a'r hyfforddiant a ddarparwyd, oedd wedi bod ar gael yn ystod eu cyfnod yn y sefydliad. Fe wnaethant adael y cyfarfod ar yr adeg hon.

3. Er Cof

Fe wnaeth y Cadeirydd gyfeirio at nifer o farwolaethau diweddar - Enid Hankins, cyn-gyflogai CAG De Cymru ac Estyn; a rhiant, neu nain neu daid, 3 aelod gwahanol o'r Cyngor. Mynegwyd cydymdeimlad ym mhob achos. Cyfeiriwyd at ymadawiad Hywel Francis hefyd - cyfrannwr arwyddocaol at addysg oedolion yng Nghymru dros ddegawdau lawer, a rhywun oedd wedi cyfranogi yng ngwaith CAG/Coleg Harlech mewn sawl ffordd yn ystod ei yrfa.

4. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 25 Ionawr 2021 a materion yn codi

Cymeradwywyd trafodion Busnes Agored cyfarfod blaenorol y Cyngor (a gynhaliwyd trwy gyfrwng MS Teams) fel cofnod gwir a chywir, heblaw am newid y geiriau 'gwasanaethau addysg oedolion' i 'Prosiect Fusion' yn y paragraff olaf, tudalen 1 (cofnod 2).

Trafodwyd dau fater yn codi o'r cofnodion. Yng nghofnod 6 (llythyr oddi wrth Lyfrgell Genedlaethol Cymru/gwaddol Tudur Bowen Jones), cytunwyd na ddylid newid geiriad y cofnod; ac y **byddai'n ddefnyddiol o safbwynt dealltwriaeth aelodau'r Cyngor i gylchredeg manylion allweddol ewyllys/ gwaddol Mr Bowen Jones, oedd yn sail i'r partneriaethau oedd yn cael eu datblygu gyda sefydliadau cenedlaethol**. Ac yng nghofnod 8 (Dangosyddion Perfformiad Allweddol yr Uwch Dîm Rheoli), roedd yr UDRh wedi trafod y cynnig i leihau rhai o dargedau 2021 ynddo, i gydnabod Covid-19, ond roeddent wedi cytuno i beidio'u newid.

5. Adroddiad y Prif Weithredwr ar gyfer Mawrth 2021

Cyfeiriodd Kathryn Robson at ailgychwyn addysgu wyneb yn wyneb, a fyddai'n dechrau'n raddol fesul cam o 12 Ebrill ar gyfer y tymor newydd; roedd rhai dosbarthiadau o'r fath eisoes yn cael eu cynnal ym Mhowys, ac roedd lleoliadau yng ngogledd Cymru fel pe baent yn llai awyddus i ystyried ailagor yn brydlon. Roedd rhai canolfannau cymunedol yn cael eu defnyddio fel canolfannau brechu, ond nid oedd hynny'n ffactor sylweddol oedd yn effeithio ar gyflymder yr ailagor i AOC|ALW. Roedd yn fwy tebygol fod hyd cymharol y cyfyngiadau symud mewn ardaloedd gwahanol awdurdodau lleol, lefelau amrywiol o fynychder Covid-19, a'r angen i barhau i gynnal pellter cymdeithasol dan do a'r oblygiadau o ran lle yn sgil hynny, oll wedi effeithio ar y parodrwydd i ailagor y mannau hyn.

Mewn gwirionedd, byddai dysgu cyfunol yn parhau ym mhob lleoliad, a byddai dewisiadau dysgwyr yn pennu sut yn union y byddai dychwelyd i ddarpariaeth yn cynnwys cymysgedd o gyfryngau yn digwydd; roedd Tîm Rheoli'r Coleg wedi ymrwymo i gynnal arolwg o ddysgwyr er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'u safbwyntiau ynghylch hyn. Roedd unrhyw ddiffyg eglurder ar gynlluniau manwl ar gyfer Tymor 3 yn deillio'n bennaf o'r ffaith fod y penderfyniad wedi'i wneud i dderbyn arweiniad oddi wrth y galw gan ddysgwyr a'r sefyllfa amrywiol ar lawr gwlad, o ran gweithgareddau partneriaid ac ardaloedd daearyddol. Roedd nifer gymharol fechan o diwtoriaid wedi bod heb ddyletswyddau addysgu dros y flwyddyn

ddiwethaf, oedd yn golygu, yn sgil y rhaglen strwythuredig o ddatblygu proffesiynol parhaus oedd wedi'i darparu iddynt, bellach, roedd gan AOC|ALW weithlu medrus, yn barod i wynebu'r realiti newydd.

Yna, fe wnaeth yr aelodau drafod cymynrodd Tudur Bowen Jones a'r cynnig diwygiedig a gyflwynwyd ger bron y Pwyllgor Adnoddau yr wythnos flaenorol, gyda'r Brifysgol Agored yn bartner arweiniol. Roedd wedi cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor, oedd yn credu ei fod yn briodol sicrhau fod Llyfrgell Genedlaethol Cymru a phartneriaid posibl eraill yn cyfranogi hefyd. Byddai gweithgor yn cael ei gynnull, byddai'n adrodd ar gynnydd yng nghyfarfod y Pwyllgor yng Ngorffennaf; nid oedd unrhyw amserlenni penodol yn eu lle ar y pryd ar gyfer y prosiect cyfan.

Cyfeiriodd Kathryn Robson at Grŵp y Mudiad Gwirfoddol, oedd wedi cynnal ei gyfarfod cyntaf ar ddechrau Chwefror, fel yr hysbyswyd wrth Bwyllgor Profiad y Dysgwyr. Roedd yn dal i gynyddu o ran maint, er mwyn dod yn gynrychiadol o'r Mudiad cyfan, ond roedd wedi cymeradwyo ei dair blaenoriaeth allweddol, gan dderbyn fod angen derbyn realiti i raddau gan ystyried yr amgylchiadau cyfyngol presennol.

Yn sgil cymeradwyo Deddf y Cwricwlwm newydd, credai Daryl Leeworthy ei bod hi'n adeg briodol i ystyried sut gallai AOC|ALW fynd ati yn y tymor hir i gynorthwyo rhieni a neiniau a theidiau i gynorthwyo plant o oedran ysgol. Roedd gwaith dysgu fel teulu yn y Sefydliad yn briodol i flaenoriaethu hynny, ac roedd ESOL/WSOL yn bynciau penodol a allai elwa o fwy o bwyslais ar y dull hwnnw.

Gan ystyried manylion yn yr adroddiad ynghylch adnewyddu adeiladau Bangor, Caerdydd ac Abertawe, cynnig i brynu adeilad newydd yng Nghasnewydd a newidiadau i brydles ein swyddfa yn y Drenewydd, ystyriai'r Cyngor y byddai'n briodol cael trosolwg ehangach o sefyllfa ystadau'r Sefydliad. Byddai hynny fel arfer yn cael ei ystyried yn rheolaidd gan y Pwyllgor Adnoddau, ond **cytunwyd y byddai cyfarfod nesaf y Cyngor ym mis Mai yn cael diweddariad ynghylch Ystadau er mwyn i bawb gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau**.

6. Cofrestr Risgiau Mawrth 2021

Nid oedd unrhyw newidiadau wedi digwydd i lefelau'r risgiau y cyfeiriwyd atynt. Ond yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio yr wythnos flaenorol, cytunwyd fod angen ychwanegu risg ychwanegol, yn ymwneud â newid posibl yng ngweinyddiaeth Llywodraeth Cymru yn dilyn etholiadau'r Senedd ar 6 Mai. Hefyd, mewn perthynas â'r etholiadau hynny, cadarnhawyd (fel yn 2016) y byddai ymdrech ymhlith ein haelodau i eirioli dros addysg oedolion yn ystod yr ymgyrch. Nodwyd fod angen diweddaru'r dyddiadau adolygu y cyfeirid atynt yn risgiau 1.1.1 ac 1.1.3, oherwydd roeddent yn y gorffennol; ac y dylid dileu'r cyfeiriad at '*adwaenid fel CAG Coleg Cymunedol YMCA Cymru yn flaenorol*' ar y dudalen flaen.

7. Cynllun Strategol 2021/2024

Bu ymgynghoriad ymhlith ein rhanddeiliaid ar y fersiwn hwn, ac roedd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i gael cymeradwyaeth derfynol. **Cadarnhaodd y Cyngor y dylid cyhoeddi'r Cynllun Strategol a'i ledaenu yn y ffurf hon**. (Cyfeiriwyd at y ffaith fod pob un o'r ffotograffau o ddysgwyr ac eithrio un yn lluniau o fenywod.)

8. Cofnodion Pwyllgor Profiad y Dysgwyr a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2021

Dywedodd Caroline Davies (Cadeirydd y Pwyllgor) ei bod hi'n fuddiol fod y Fforymau Rhanbarthol a Grŵp y Mudiad Gwirfoddol wedi cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor am y tro cyntaf, a bod Cydlynydd Anghenion

Dysgu Ychwanegol y sefydliad yn bresennol hefyd. O ran cofnod 12 a'r syniad o gael llywodraethwr arweiniol ym maes Iechyd a Llesiant, yn dilyn trafodaeth ychwanegol â Michelle Kerswell (Rheolwr y Cwricwlwm), credai y byddai o fudd cael 2 lywodraethwyr yn rhannu'r rôl - un ar gyfer dysgwyr, a'r llall ar gyfer staff, oherwydd roedd yn faes eang i'w ystyried. Mewn ymateb, dywedwyd fod y sector cyfan yn cael ei annog i ymdrin â'r mater yn gyfannol, a dyna pam y cafodd strategaeth y Sefydliad ei ehangu o fod yn un ar gyfer staff yn unig. Cytunwyd y **byddai'r gwahoddiad i enwebu yn cael ei anfon at bob llywodraethwr, ac os byddai mwy nag un llywodraethwr yn mynegi diddordeb, byddai'r rôl gyffredinol yn cael ei rhannu rhwng dau unigolyn**.

9. Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Adnoddau ar 3 Mawrth 2021

Fe wnaeth Steve Nicholls, Cadeirydd y Pwyllgor, ddwyn sylw at natur gadarnhaol yr adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ynghylch staffio, a luniwyd am y tro cyntaf – fodd bynnag, cafwyd cais i wneud rhagor i amlinellu'r data ynghylch materion LGBT yn y dyfodol; a'r Adroddiad Marchnata, oedd wedi ysgogi trafodaeth ynghylch diffyg cydnabyddiaeth i frand y Sefydliad a phwysigrwydd rhoi mwy o bwyslais deunyddiau hysbysebu ffisegol (ategwyd hynny gan ddau aelod arall o'r Cyngor – nid aelodau o'r Pwyllgor).

Roedd y cyfarfod wedi ystyried sefyllfa cronfeydd ariannol wrth gefn y Sefydliad yn unol â'r bwriad, ac wedi argymell defnyddio cyfran o'i arian wrth gefn i brynu adeilad oedd eisoes wedi'i nodi yng Nghasnewydd – yn dibynnu ar gymeradwyaeth derfynol, ar sail gwybodaeth fanwl gan syrfewyr a manylion ariannol – gan ystyried nad oedd Wrecsam erbyn hynny yn cael ei ystyried yn lleoliad posibl i'r adeilad. Mewn perthynas â chymynrodd Tudor Bowen Jones a menter y llyfrgell, fel y crybwyllwyd yng nghofnod 5 uchod, cafwyd cymeradwyaeth wresog i ddarpar bartneriaeth â'r Brifysgol Agored yng Nghymru fel partner arweiniol.

10. Cyfrifon Rheoli ar gyfer 1 Awst 2020 – 31 Ionawr 2021

Cafwyd newidiadau sylweddol ymhen y chwe wythnos a aeth heibio ar ôl y sefyllfa a ddisgrifir yn y ddogfen hon, ac achoswyd hynny gan £720,000 o gyllid allweddol gan Lywodraeth Cymru nad oedd yn rhan o'r gyllideb. Gallai hynny olygu gweddill uwch ar ddiwedd y flwyddyn na'r hyn a ragwelid yn y papur. Ond nid oedd unrhyw sicrwydd y byddai haelioni o'r fath yn parhau gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol, pan fyddai effeithiau Covid-19 yn arwain yn anochel at gyni o ran cyllid. Roedd angen i AOC|ALW baratoi at y posibilrwydd hwnnw yn ddi-oed.

11. Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 5 Mawrth 2021

Fe wnaeth Chris Franks, Cadeirydd y Pwyllgor, atgoffa'r aelodau y cafwyd cais yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor y dylai'r Pwyllgor fynd ati i fonitro argymhellion o ddau adroddiad archwiliad mewnol yn 2020 oedd wedi haeddu 'sicrwydd rhesymol' yn unig – cyswllt â changhennau, a gweithredu gofynion GDPR. Cadarnhawyd eu bod yn rhan o ddogfen monitro diweddaru archwiliadau mewnol, i'w chyflwyno bob tymor i'r Pwyllgor Archwilio. Yn ychwanegol, ac fel rhan o Gynllun Archwilio 2021 a gadarnhawyd yn ddiweddar, byddai eitemau oedd yn dal heb gael eu harchwilio yn ystod 2020 oherwydd rhesymau dealladwy yn ymwneud â Covid-19 (yr Adolygiad Rhanbarthol, a dadansoddiad o'r Strategaeth TG) yn cael eu hychwanegu at y 5 maes ymholi arall ar gyfer 2021.

12. Cadarnhau rhaglen a threfniadau'r CCB ar 30 Mawrth 2021, yn cynnwys cymeradwyo cynigion

Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo rhaglen arfaethedig y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r digwyddiad 'Llunio'r Dyfodol'. Cymeradwywyd y 4 cynnig oedd ar yr agenda i'w trafod fel rhai derbyniol, oherwydd nid oeddent yn groes i egwyddorion nac amcanion y Sefydliad.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y 4 cynnig, a chytunwyd y dylai Toni Schiavone gynnig diolchiadau (cynnig 2) ar ran y Cyngor, roedd yn cefnogi hynny yn unfrydol; ac y dylai Cathy Clark gyflwyno cynnig 4, ynghylch aelodaeth genedlaethol i aelodau canghennau, ar sail eglurhad a gynigiwyd ynghylch 'aelodaeth amhenodol' ar ôl cymeradwyo aelodaeth y flwyddyn gyntaf. Fe wnaeth holl aelodau'r Cyngor gymeradwyo hynny hefyd.

Fodd bynnag, cafwyd dadl ynghylch y ddau gynnig arall; cytunwyd nad oedd unrhyw ddisgwyliad i aelodau'r Cyngor bleidleisio o'u plaid o reidrwydd. Roedd rhai llywodraethwyr yn amheugar i ryw raddau ynghylch y cynnig i gynnal cysylltiadau addysgol ledled Ewrop (cynnig 1), gan gredu fod y cynnig yn rhy Ewrosentrig ac yn rhoi gormod o bwyslais ar amlieithrwydd. Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch sefydlu cronfa i gynorthwyo ceiswyr lloches oedd yn ddysgwyr AOC|ALW (cynnig 3) mewn perthynas â sut roedd ein myfyrwyr difreintiedig a thlawd eraill yn cael eu cynorthwyo'n ariannol (â phosibilrwydd o wahaniaethu), a pha mor briodol oedd galw hynny yn gronfa 'lesiannol'.

13. Hunan-arfarniad o drafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor

Gan nodi fod y cyfarfod wedi para tua 15 munud yn hirach na'i derfyn amser enwol unwaith eto, gofynnodd yr aelodau a allai'r Sefydliad ystyried pennu cyfyngiad amser mwy caeth ag 'amser gwarchodedig', i gynnwys egwyl hirach yng nghanol y cyfarfod. Roedd rhai yn ystyried fod gwneud mwy o ddefnydd o'r opsiwn Sgwrsio (er nad oedd hynny wedi bod ar gael i bawb ar y diwrnod, oherwydd rhesymau technegol) yn ffordd o arbed amser, ond eraill yn ei ystyried yn fodd i wastraffu mwy o amser.

14. Gweddill dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2021

Rhagwelid y cyfarfodydd rhithwir canlynol (yn cychwyn am 12:30 y.p.):
- Dydd Mawrth 18 Mai
- Dydd Iau 27 Gorffennaf (dyddiad yn dal heb ei gadarnhau)

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeiriad	Enw'r cofnod	Cam gweithredu a gytunwyd	Pwy ddylai weithredu	Erbyn pryd ddylid gweithredu
Cofnod 4	Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 25 Ionawr 2021 a materion yn codi	Byddai'n ddefnyddiol o safbwynt dealltwriaeth aelodau'r Cyngor i gylchredeg manylion allweddol ewyllys/gwaddol Mr Bowen Jones, oedd yn sail i'r partneriaethau oedd yn cael eu datblygu gyda sefydliadau cenedlaethol.	KR / ST	Mai 2021
Cofnod 5	Adroddiad y Prif Weithredwr, Mawrth 2021	Cytunwyd y byddai cyfarfod nesaf y Cyngor ym mis Mai yn cael diweddariad ynghylch	CH	Mai 2021

		Ystadau er mwyn i bawb gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau.		
Cofnod 7	Cynllun Strategol 2021/2024	Cadarnhaodd y Cyngor y dylid cyhoeddi'r Cynllun Strategol a'i ledaenu yn y ffurf derfynol hon.	KR / Jonathan Goddard	Mawrth 2021
Cofnod 8	Cofnodion Pwyllgor Profiad y Dysgwyr ar 26 Chwefror 2021	Byddai'r gwahoddiad i enwebu llywodraethwr arweiniol ynghylch Iechyd a Llesiant yn cael ei anfon at bob llywodraethwr, ac os byddai mwy nag un llywodraethwr yn mynegi diddordeb, byddai'r rôl gyffredinol yn cael ei rhannu rhwng dau unigolyn.	CH / ST	Ebrill 2021
Cofnod 12	Cadarnhau rhaglen a threfniadau'r CCB ar 30 Mawrth 2021, yn cynnwys cymeradwyo cynigion	Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo rhaglen arfaethedig y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r digwyddiad 'Llunio'r Dyfodol'. Cymeradwywyd y 4 cynnig oedd ar yr agenda i'w trafod fel rhai derbyniol, oherwydd nid oeddent yn groes i egwyddorion nac amcanion y Sefydliad.	ST	Mawrth 2021